

**CYNNIG I YMESTYN YSTOD OEDRAN YSGOL
GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMURU SAINT-
Y-BRID I 3-11 OED A CHREU DOSBARTH
MEITHRIN AR GYFER 48 O DDISGYBLION**



*Love Learning for Life
Caru Dysgu am Oes*

ADRODDIAD YMGYNGHORI IONAWR 2016

Cynnwys

Cefndir.....	3
Methodoleg.....	3
Canlyniadau'r ymgynghoriad â Rhieni, Staff a Rhanddeiliaid Allweddol eraill.....	5
Atodiad A Sylwadau o blaid y cynnig	6
Atodiad B Materion cyffredin a godwyd am y cynnig	7
Atodiad C Ymateb Estyn	9
Atodiad D Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol	12
Atodiad E Cofnodion o sesiwn rhannu gwybodaeth gyda'r Llywodraethwyr	14
Atodiad F Cofnodion o sesiwn rhannu gwybodaeth gyda'r Rhieni	15
Atodiad G Cofnodion o sesiwn rhannu gwybodaeth gyda Staff y Cylch Chwarae	18
Atodiad H Cofnodion o'r cyfarfod â Chyngor yr Ysgol	19
Atodiad I Cofnodion o'r cyfarfod â'r Corff Llywodraethu	20
Atodiad J Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb	23

Cefndir

Mae dyletswydd ar y Corff Llywodraethu i sicrhau bod yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau ar gyfer ysgolion, er mwyn parhau i godi safonau yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

Cynhaliodd y Corff Llywodraethu ymgynghoriad rhwng dydd Llun 2 Tachwedd 2015 a dydd Gwener 8 Ionawr 2016 i gael barn am gynnig i greu dosbarth meithrin newydd i 48 o ddisgyblion rhan-amser ac estyn yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid i 3-11 oed.

Roedd y broses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac roedd yn gyfle i'r bobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Corff Llywodraethu glywed barn pawb â diddordeb er mwyn ei hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Y cynnig

Mae'r Corff Llywodraethu'n cynnig sefydlu dosbarth meithrin â 48 o leoedd rhan-amser yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Corff Llywodraethu'n cynnig estyn ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid o 4 i 11 oed i 3 i 11 oed. Bydd y feithrinfa ar dir presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

Cynigir y bydd y feithrinfa'n barod i groesawu plant ar ddechrau tymor y Gwanwyn ym mis Ionawr 2017. Byddai'r ysgol yn estyn ei Chyfnod Sylfaen i ddatblygu darpariaeth addysgol i'r plant hynny sy'n gymwys i fynychu'r feithrinfa o'r tymor ar ôl eu 3^{ydd} pen-blwydd.

Byddai pennaeth presennol Ysgol Saint-y-brid yn parhau'n bennaeth ar yr ysgol estynedig a byddai'r Corff Llywodraethu'n parhau'n gorff llywodraethu ar yr ysgol a fyddai'n cynnwys y dosbarth Meithrin.

Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng dydd Llun 2 Tachwedd 2015 a dydd Gwener 8 Ionawr 2016 ac fe'i cynhaliwyd â'r ymgynghoreion a ragnodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Holwyd barn amrywiaeth o unigolion a grwpiau am y cynnig gan gynnwys:

Staff (athrawon a staff eraill) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid	Staff yng Nghylch Chwarae Saint-y-brid
Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid	Bwrdd Addysg Esgobaethol Llandaf
Rhieni/Gofalwyr plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid	Rhieni/Gofalwyr plant sy'n mynychu Cylch Chwarae Saint-y-brid

Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid	Cyngor Cymuned Saint-y-brid a Chyngor Cymuned Ewenni
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg
Cyngor Bro Morgannwg	Aelodau Cynulliad (AC)/ Aelodau Seneddol (AS) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
Cynghorwyr Lleol	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Comisiynydd y Gymraeg	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg	Undebau Llafur
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth De Cymru	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Estyn	Gweinidogion Llywodraeth Cymru
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throsedd	Adran Drafnidiaeth y Cyngor
Bwrdd Cyllid Esgobaethol Llandaf	

Ymgynghorwyd hefyd â disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yn ystod sesiwn a gynhaliwyd ddydd Mawrth 24 Tachwedd 2015 yn y Senedd. Cynhaliwyd y sesiwn ymgynghori â chyngor yr ysgol ac fe'i hwyluswyd gan y pennaeth, Mr Duncan Mottram, a chadeirydd y llywodraethwyr, Mrs Ann Jenkins, er mwyn cynnwys y plant yn y broses ymgynghori.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol drwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb gysylltiedig a ddsbarthwyd i'r ymgynghoreion a ragnodwyd. Cynigiwyd y ddogfen ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Cynhaliwyd cyfarfod â Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yn yr ysgol ar 16 Tachwedd 2015. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio gyda rhieni ar 4 Tachwedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid er mwyn i'r rhieni fynychu, cwrdd â chynrychiolwyr yn unigol a rhannu eu barn. Cynhaliwyd cyfarfodydd staff yng nghylch chwarae Saint-y-brid ar 2 Tachwedd 2015 ac yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid ar 3 Tachwedd 2015. Yn yr holl gyfarfodydd, roedd y pennaeth Mr Duncan Mottram yn bresennol a chynrychiolwyr o gorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn rhan ganolog o'r broses ymgynghori a ragnodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgol. Roedd y ddogfen ymgynghori'n amlinellu'r newidiadau sydd dan ystyriaeth, y sail resymegol i'r rhain, manylion yr ymarfer ymgynghori, ac roedd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Cafodd ymgynghoreion wybod bod fersiwn ar-lein ar gael i'w llenwi a chawsant gyfeiriadau cyswllt i anfon sylwadau i mewn drwy e-bost neu drwy'r post neu â llaw drwy swyddfa'r ysgol.

Hyrwyddwyd yr ymarfer ymgynghori'n helaeth ar-lein, drwy wefan yr Ysgol, a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Canlyniadau'r ymgynghoriad â Rhieni, Staff a Rhanddeiliaid Allweddol eraill

Ar ddyddiad cau'r ymgynghoriad, roedd yr ysgol wedi cael 6 ymateb unigol i'r cynnig. Roedd y 6 ymateb unigol i gyd yn gadarnhaol. Mae crynodeb o'r sylwadau a godwyd o blaid y cynnig i'w weld yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r materion a godwyd ar gael yn Atodiad B.

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori i Estyn ac i'r Awdurdod Lleol. Rhoes Estyn a'r Awdurdod Addysg Lleol eu barn am rinweddau cyffredinol y cynnig. Mae'r ymateb gan Estyn i'w weld yn Atodiad C, a'r ymateb gan yr Awdurdod Addysg Lleol i'w weld yn Atodiad D.

Mae'r ymatebion gan blant, staff a llywodraethwyr y ddau safle i'w gweld yn Atodiadau E, F, G a H.

Atodiad A

Yn yr adran hon, darperir sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rheini o blaid y cynnig. Mae hyn yn cynnwys ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori ac yn yr ohebiaeth a gafwyd.

- Cytunodd y Corff Llywodraethu'n unfrydol i'r cynnig am ei fod yn uchelgais tymor hir sefydlu dosbarth meithrin yn yr ysgol.
- Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal o leiaf safonau cyfredol yr addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal. Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith negyddol ar unrhyw ysgolion eraill nac ar unrhyw ddarparwyr addysg cyn-ysgol yn yr ardal.

"A minnau'n aelod o staff ac yn rhiant yng Nghylch Chwarae Saint-y-brid ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, credaf y bydd y cynnig yn codi safonau addysgol oherwydd bydd y disgyblion yn treulio amser ychwanegol yn safle ein hysgol hapus a llwyddiannus, gan roi cychwyn rhagorol i'w haddysg". Mrs C. Jenkins (Rhiant ac Athrawes Blwyddyn 6)

- Mae Cyngor Bro Morgannwg yn llwyr gefnogi'r cynnig ac yn teimlo y bydd yn gwella'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol.
- Mae staff Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yn llwyr gefnogi'r cynnig, gan gydnabod y manteision addysgol posibl i'w cael ag ystod oedran estynedig yr ysgol. Bydd yr ystod oedran estynedig hefyd yn hwyluso cyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r staff.
- Mae Cyngor Cymuned Ewenni yn cefnogi'r cynnig yn llawn.
- Mae'r staff yng nghylch chwarae Saint-y-brid yn cydnabod buddion y cynnig.
- Bu'r staff yng nghylch chwarae Saint-y-brid yn gofyn cwestiynau am y ddarpariaeth gofleidiol a'r nodweddion ymarferol ar fynd â phlant yn ôl ac ymlaen i sesiynau'r dosbarth meithrin.
- Pleidleisiodd Cyngor yr Ysgol o blaid y cynnig.
- Croesawodd y rhieni'r cyfle i'w plant fynychu'r dosbarth meithrin ar safle'r ysgol gyda'u plant hŷn.

Atodiad B

Yn yr adran hon, rhoir sylwadau mewn perthynas â materion cyffredin a godwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori ac yn yr ohebiaeth a gafwyd.

Beth fydd y dalgylch lleol os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?

Ni fyddai'r dalgylch yn newid.

Beth fyddai'r trefniadau derbyn i'r ysgol gynradd?

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn i blant oedran meithrin ledled Bro Morgannwg ar gyfer ysgolion cymunedol a darparwyr cofrestredig. Byddai trefniadau derbyn i'r dosbarth meithrin yn cael eu datganoli i'r ysgol a byddent yn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol ar gyfer y dosbarth Derbyn. Ni fyddai'r trefniadau derbyn yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

A fydd gwisg gan y dosbarth meithrin?

Ni thrafodwyd hyn eto, ond er mwyn i'r disgyblion fod yn rhan o'r ysgol, gallai'r wisg gael ei hestyn i ddisgyblion oed meithrin.

Beth fydd oriau'r dosbarth meithrin?

Bydd y sesiynau'n para dwy awr a hanner. Hyd yma, nid yw'r amseroedd dechrau wedi'u penderfynu, ond byddant ychydig yn wahanol i amseroedd y brif ysgol er mwyn osgoi tagfeydd traffig.

A fydd swyddi'n cael eu colli o ganlyniad i'r cynnig?

Ni ddisgwylir colli swyddi o gwbl. Disgwylir i niferoedd y disgyblion barhau'r un fath yn y cylch chwarae ac felly ni nodwyd unrhyw ostyngiad staff yn y naill safle neu'r llall. Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am bennu'r lefelau staff yn yr ysgol. Mae'r ysgol a'r cylch chwarae'n benderfynol o gydweithio i sicrhau nad oes dim cyflogai'n cael ei osod dan anfantais gan y trefniadau newydd.

Sut fydd yr elfen gofal cofleidiol yn gweithio?

Gall y rhieni sydd am gael gofal cofleidiol wneud hynny drwy drefnu sesiynau ychwanegol yng nghylch chwarae Saint-y-brid. Bydd yr ysgol gynradd mewn partneriaeth â'r cylch chwarae yn trefnu bod y plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel rhwng y ddau safle. Bydd y plant yn bwyta eu cinio yn y safle lle byddant wedi treulio'r bore.

Sut bydd y plant yn symud rhwng y ddau safle os oes angen yr elfen gofal cofleidiol ar eu teuluoedd?

Bydd yr ysgol yn cynnal asesiad risg o'r llwybr mwyaf diogel rhwng y ddau safle (500 llath) ac yn hebrwng y plant gyda'r gymhareb gywir o oedolion. Cytunodd yr ysgol i gael cyngor gan Gyfarwyddiaeth Traffig a Phrifyrdd Bro Morgannwg am fan croesi ar Southerndown Rd. Cytunodd yr ysgol hefyd i ymchwilio i brynu bws mini at y diben hwn.

A oes modd i sesiynau wedi'u hariannu gael eu grwpio gyda'i gilydd i wneud darpariaeth diwrnod cyfan?

Nid yw Corff Llywodraethu'r ysgol wedi gwneud penderfyniad am y mater hwn eto. Fodd bynnag, er mwyn i'r ysgol gynllunio darpariaeth briodol, mae hyn yn annhebygol.

Ymateb Estyn i'r cynnig i newid cymeriad Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid drwy sefydlu uned feithrin yn yr ysgol. Bydd hyn yn ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4 – 11 oed i 3 – 11 oed.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Yn ôl telerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Serch hynny, nid corff y mae disgwyl iddo weithredu'n unol â'r Cod mo Estyn, ac nid oes unrhyw ddyletswyddau statudol arno o dan y Ddeddf o safbwynt trefniadaeth ysgolion. Gan hynny, pan ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn mynegi barn am fanteision cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac yn ymateb fel a ganlyn i'r wybodaeth a gafodd gan y cynigydd.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig yr ymgynghorir ynglŷn ag ef wedi dod oddi wrth Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid i:

Ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid i 3 i 11 oed.

Creu uned feithrin yn yr ysgol.

Os caiff ei roi ar waith, bydd y cynnig yn golygu y bydd y feithrinfa'n barod i groesawu plant ar ddechrau tymor y gwanwyn ym mis Ionawr 2017.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal o leiaf y safonau cyfredol o addysg a darpariaeth yn yr ardal. Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith negyddol ar unrhyw ysgolion eraill nac ar unrhyw ddarparwyr addysg cyn-ysgol yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynnig yn cynnwys sail resymegol briodol ac mae'n diffinio'r manteision a ddisgwylir yn dda ac yn glir. Mae'r rhain yn cynnwys cwricwlwm mwy cydlynol i'r Cyfnod Sylfaen gyda'r potensial i gynnig gwell parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion ac ateb cost-effeithiol i ymestyn y ddarpariaeth feithrin i fodloni'r galw a nodwyd yn yr ardal.

Mae'r cynigydd wedi cymharu manteision y cynnig â'r sefyllfa sydd ohoni ac mae wedi ystyried yr holl ddewisiadau rhesymol eraill yn deg. Cytuna Estyn mai hoff opsiwn y cynigydd sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar safonau arwain, y ddarpariaeth a chanlyniadau o'i gymharu â'r dewisiadau eraill.

Ceir gwerthusiad priodol o risgiau posibl i'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y tebygolrwydd y bydd cwmnïau adeiladu'n rhyddhau cyllid fesul rhandaliad. O ganlyniad, ni fydd yr holl gyllid gofynnol ar gael pan fydd y gwaith adeiladu a nodwyd yn dechrau. Fodd bynnag, mae'r cynigydd yn nodi cynlluniau wrth gefn priodol ar gyfer hyn. Yn y cynnig, nodir cynnydd posibl mewn costau refeniw, er enghraifft i ariannu athrawes neu athro yn y dosbarth meithrin. Mae hefyd yn gwneud achos cadarn dros dalu'r costau hyn.

Nodir yn glir yn y cynnig na fydd fawr iawn o effaith o gwbl ar y trefniadau teithio i'r disgyblion a'u teuluoedd, a bod unrhyw gynnydd mewn tagfeydd traffig yn annhebygol pe byddai'r cynnig yn llwyddo. Mae'r cynigydd yn egluro na fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth gludiant i ddisgyblion yn sgil y cynnig hwn, yn y tymor byr, am nad yw disgyblion oed meithrin yn gymwys am gludiant i'r ysgol oni bai bod ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o dan bolisi cyfredol yr awdurdod lleol. Mae'r cynnig yn nodi bod disgwyl i ran fwyaf y disgyblion, os nad bron y disgyblion i gyd, dros amser, fyw o fewn dalgylch yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw werthusiad o gostau posibl darparu cludiant i ddisgyblion sy'n byw mwy na dwy filltir o'r ysgol pan fyddant yn dechrau addysg amser llawn pan gyrrhaeddant oedran derbyn.

Yn y cynnig, nodir y goblygiadau ar gyfer staffio a llywodraethu'r ysgol yn briodol. Mae Estyn yn cytuno bod hyn yn debygol o achosi ychydig bach iawn o newid a'i fod yn annhebygol o gael unrhyw effaith andwyol ar safonau arwain, y ddarpariaeth neu'r canlyniadau i ddisgyblion.

Mae'r cynnig yn drwyadl yn y modd y defnyddia ddata o ran niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Dengys yn glir y byddai'r cynnig yn darparu digon o le i'r galw cynyddol am leoedd ysgol a meithrinfa yn yr ardal yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r cynnydd hwn mewn galw oherwydd dau ddatblygiad adeiladu gweddol fawr yn yr ardal.

Cytuna Estyn fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Mae'r cynigydd wedi gwerthuso'r safonau arwain, y ddarpariaeth a'r canlyniadau addysgol cyfredol yn yr ysgol yn drwyadl. Cytuna Estyn fod y trefniadau arfaethedig yn annhebygol o gael unrhyw effaith andwyol ar y safonau hyn, ond y gallant fod o fudd i'r disgyblion ar y cyfan, er enghraifft drwy ddarparu addysg barhaus mewn un safle drwy'r Cyfnod Sylfaen.

Prin yw'r wybodaeth yn y cynnig am unrhyw effaith ar ansawdd y ddarpariaeth i'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae'n nodi y bydd pob adeilad newydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Ar y cyfan, mae Estyn yn credu bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith andwyol ar ddarpariaeth i'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Cred Estyn fod y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith andwyol ar addysg grwpiau eraill sy'n agored i niwed, fel disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae Estyn o'r farn na fydd effaith y trefniadau derbyn diwygiedig yn tarfu rhyw lawer o gwbl ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r cynnig yn gwerthuso'n deg y goblygiadau ar gyfer y darparwyr addysg cyn-ysgol eraill yn yr ardal.

Ymateb i'r Ymgynghoriad i newid cymeriad Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Ysgol yng Nghymru Saint-y-brid:

- 1. Drwy estyn ystod oedran yr ysgol o 4 – 11 oed i 3 - 11 oed;**
- 2. Drwy sefydlu uned feithrin yn yr ysgol.**

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ystyried y cynnig oddi wrth gorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid ac mae'n cynnig y sylwadau canlynol am y cynnig.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod y corff llywodraethu wedi darparu sail resymegol gadarn i'r cynnig a bod y cynigydd wedi gwneud achos rhesymegol o ran sefydlu dosbarth meithrin yn yr ysgol. Yn ôl y cynnig, gallai'r galw am leoedd ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid gynyddu 17 o leoedd meithrin a 47 o leoedd disgyblion cynradd yn sgil y datblygiadau tai newydd sy'n cael eu sefydlu yn y pentref cyfagos yn Aberogwr.

Mae'n debyg bod y corff llywodraethu wedi ystyried manteision ac anfanteision y cynnig yn ogystal â nifer o ddewisiadau eraill, ac mae wedi dangos y bydd y cynnig yn sicrhau'r gwerth gorau am arian a'r potensial am well canlyniadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn ôl y cynnig, bydd y prosiect yn cael ei ariannu gan gyfraniadau Addysg Adran 106 a fydd yn deillio o'r ddau ddatblygiad yn Aberogwr. Gall y Cyngor gadarnhau bod pob aelod a swyddog cyngor perthnasol wedi cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad am ddefnyddio'r cyfraniad Adran 106 ar gyfer y cynnig hwn a'u bod yn cefnogi hynny'n llawn.


Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried effaith y cynnig ar ysgolion cyfagos ac yn honni'n rhesymol nad yw'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol oherwydd bod y ddau ddatblygiad yn Aberogwr o fewn terfynau dalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

Mae'r corff llywodraethu hefyd wedi ystyried effaith y cynnig ar y cylch chwarae yn Saint-y-brid sef darparwr cyfredol lleoedd meithrin a gynhelir ar gyfer dalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid. Yn ôl y cynnig, bydd yr ysgol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r cylch chwarae a fydd yn parhau i ddarparu cylch chwarae i blant 2 oed a hŷn yn ogystal â chyfleuster gofal cofleidiol i blant y cynigir 2.5 awr o ddarpariaeth feithrin iddynt yn y dosbarth meithrin newydd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

Mae'r Cyngor felly'n cefnogi'r cynnig hwn yn llwyr ac yn teimlo y bydd yn gwella'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

Dymuna'r Cyngor ei gwneud yn glir mai'r Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar bennu'r cynnig os bydd yr ysgol yn cael gwrthwynebiadau i'r cynnig yn y cyfnod Hysbysiad Statudol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jennifer Hill". The script is cursive and somewhat informal.

JENNIFER HILL
CYFARWYDDWR DYSGU A SGILIAU

ATODIAD E

Nodyn o Gyfarfod Ymgynghori – 16.00 ar 16 Tachwedd 2015 gydag aelodau o Gorff Llywodraethu Saint-y-brid.

Yn bresennol - D. Mottram (pennaeth), M. Stanlake (dirprwy bennaeth), A. Jenkins (cadeirydd y llywodraethwyr), I. Spence (is-gadeirydd y llywodraethwyr), a C. Halsall.

Amlinellodd Mr Mottram ddiben yr ymgynghoriad a'r rhesymau drosto. Rhoes wybod i'r llywodraethwyr am y cynnydd hyd yma ac am y trefniadau a fwriadwyd ar gyfer trosglwyddo disgyblion rhwng y dosbarth meithrin a'r cylch chwarae lle byddai rhieni'n defnyddio'r gofal cofleidiol a fydd yn cael ei gynnig gan y cylch chwarae.

Cytunwyd bod y llywodraethwyr o blaid adeiladu'r feithrinfa.

ATODIAD F

Nodyn o Gyfarfod Ymgynghori – 14.30 ar 4 Tachwedd 2015 gyda Rhieni.

Yn bresennol – D. Mottram (pennaeth), I. Spence (is-gadeirydd y llywodraethwyr), A. Rogers (arweinydd y cylch chwarae), I. Jones (pensaer) a 4 rhiant.

Amlinellodd Mr Mottram ddiben yr ymgynghoriad a'r rhesymau drosto. Er bod caniatâd cynllunio wedi'i gael i'r prosiect, cadarnhaodd Mr Mottram nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r feithrinfa'n cael ei hadeiladu. Dim ond gyda chefnogaeth y gymuned leol y byddai prosiect y feithrinfa'n mynd yn ei flaen.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedwyd wrth y rhieni y cafwyd gwrthwynebiad i'r adran gynllunio ar sail agosrwydd tŷ gerllaw, ond nid oeddent wedi ystyried ei fod yn ddigon sylweddol i wrthod caniatâd nac i ofyn am newidiadau i'r cynlluniau. Ar ôl gweld y cynlluniau ymlaen llaw, holodd un o'r rhieni faint o'r lle awyr agored a fyddai'n cael ei golli i'r cylch chwarae newydd. Rhoddodd y pensaer ddimensiynau'r lle chwarae iddynt a nododd nad oedd y lle a ddyrannwyd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd heblaw gardd fechan.

Roedd yr ymholiad nesaf ynglŷn ag arwyneb y lle chwarae. Cadarnhawyd mai tarmac a fyddai, ond y byddai'r lle addysgu awyr agored yn cael gorffeniad meddal i gyd-fynd â lle'r Cyfnod Sylfaen gyda chanopiau tebyg.

Roedd gweddill y drafodaeth, gan mwyaf, am y manylion ymarferol pe byddai'r feithrinfa'n cael ei chodi a rhieni'n defnyddio'r cylch chwarae i ddarparu gofal cofleidiol. Cytunwyd y byddai angen cyd-redeg amseroedd sesiwn ac y byddai'n ddoeth rhoi cinio yn y safle lle cynhelir sesiwn y bore; ni fyddai hyn yn cael unrhyw effaith negyddol ar y ddarpariaeth gyfredol. Byddai staff yr ysgol yn cynnal asesiad risg o'r llwybr gorau rhwng y ddau adeilad ac yn goruchwyllo'r trosglwyddo rhyngddynt. Holodd un rhiant a allai sesiynau wedi'u hariannu gael eu paru i wneud darpariaeth diwrnod cyfan yn yr ysgol, fel y byddai'n cael ei wneud weithiau gyda'r cylch chwarae. Dywedwyd wrthynt mai'r corff llywodraethu fyddai'n penderfynu hynny, ond nid oedd fel petai'n fuddiol oherwydd ni fyddai'r plentyn ond yn ailadrodd sesiwn y bore yn y prynhawn.

Nodwyd mai'r bwriad oedd derbyn yr holl blant yn y cylch chwarae a oedd wedi cael eu 3^{ydd} pen-blwydd y tymor cyn agor y feithrinfa. Wrth reswm, ni fyddent yn gorfod dod i'r feithrinfa oherwydd byddai'r plant yn ieuengach na'r oedran ysgol statudol sef 5 oed. Cadarnhawyd y byddai'r dosbarth meithrin yn cael ei arwain gan athro neu athrawes gyda chymorth Cynorthwyywyr Cymorth Dysgu i gynnal y gymhareb ofynnol o ddisgyblion i oedolion.

Pan fyddai'r dosbarth meithrin yn weithredol, eglurwyd bod disgwyl y byddai cyfrifoldeb am dderbyniadau yn cael ei ddirprwyo i'r ysgol o'r Awdurdod Lleol a byddai polisi Derbyn yr ysgol yn berthnasol wedyn. Pwysleisiwyd na fyddai

plentyn yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r dosbarth Derbyn am ei fod wedi'i dderbyn i'r dosbarth meithrin, am fod gwahanol broses dderbyn ar waith ar gyfer derbyn plant i'r dosbarth derbyn.

Nodyn o Gyfarfod Ymgynghori – 18.30 ar 4 Tachwedd 2015

Yn bresennol – D. Mottram (pennaeth), A. Jenkins (cadeirydd y llywodraethwyr), A. Rogers (arweinydd y cylch chwarae), a 6 rhiant.

Roedd cynlluniau pensaer o'r feithrinfa arfaethedig ar gael i'w gweld.

Amlinellodd Mr Mottram ddiben yr ymgynghoriad a'r rhesymau drosto. Er bod caniatâd cynllunio wedi'i gael, nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r feithrinfa'n cael ei chodi.

Dywedwyd mai'r bwriad oedd derbyn yr holl blant yn y cylch chwarae a oedd wedi cael eu 3^{ydd} pen-blwydd y tymor cyn agor y feithrinfa. Wrth reswm, ni fyddent yn gorfod mynd i'r feithrinfa oherwydd byddai'r plant yn ieuengach na'r oedran ysgol statudol sef 5 oed.

Canolbwyntiodd gweddill y drafodaeth ar fanylion ymarferol.

1. A fyddai'r feithrinfa'n cynnig darpariaeth 'drwy'r dydd' i blant unigol?

Dywedwyd wrth y rhai a oedd yn bresennol mai penderfyniad i'r coff llywodraethu fyddai hwn, ond nad oedd fel petai'n fuddiol i ddechrau, oherwydd byddai'r plentyn yn ailadrodd sesiwn y bore yn y prynhawn. Eglurwyd y byddai'r rhieni'n gallu cael gofal cofleidiol drwy gylch chwarae'r pentref. Byddai angen cyd-redeg yr amseroedd sesiwn a byddai cinio'n cael ei roi yn y safle lle cynhaliwyd sesiwn y bore. Byddai staff yr ysgol yn cynnal asesiad risg o'r llwybr gorau rhwng y ddau adeilad ac yn goruchwyllo trosglwyddo'r plant rhwng yr ysgol a'r cylch chwarae. Byddai'r gymhareb o staff i blant yn cyfateb i ofynion statudol.

2. A ellir holi'r Cyngor am gyfleusterau croesi'r ffordd i'r plant ar y ffordd i'r cylch chwarae e.e. Southerndown Rd?

Cytunodd y pennaeth i ymchwilio i'r mater hwn gyda'r Cyngor yn y cyfnod cynnar hwn yn y broses.

3. Sut bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant ieuengach yn 'amgylchedd mwy o faint' yr ysgol gynradd?

Eglurodd y pennaeth y byddai'r cyfleusterau a'r plant meithrin mewn ardal wedi'i hadeiladu'n bwrpasol. Byddai gan y feithrinfa ei mynedfa ei hun, yn ogystal â chyfleusterau toiled, ystafell gotiau, ardaloedd chwarae etc. Ni fyddai disgyblion hŷn na'u rhieni'n cael mynd i'r ardaloedd hyn.

4. A fydd plant dan anfantais os na fyddant yn mynychu'r feithrin, o ran eu derbyn i Ysgol Gynradd Saint-y-brid pan fyddant yn cyrraedd oedran ysgol statudol?

Pan fyddai'r feithrinfa'n weithredol, eglurwyd bod disgwyl y byddai'r cyfrifoldeb am dderbyn i'r feithrinfa'n cael ei ddirprwyo i'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol ac y byddai polisi Derbyn yr ysgol yn berthnasol wedyn.

Pwysleisiwyd na fyddai plentyn yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r dosbarth Derbyn am ei fod wedi'i dderbyn i'r feithrinfa. Mae gwahanol broses dderbyn ar waith ar gyfer derbyn plant i'r dosbarth derbyn. Byddai pob cais gan blant o oedran ysgol statudol i ymuno â'r ysgol yn cael ei ystyried yn unol â pholisi Derbyn yr ysgol.

5. Sut bydd yr ysgol yn sicrhau diogelwch y disgyblion tra bydd y feithrinfa'n cael ei hadeiladu?

Eglurodd y Pennaeth y byddai'r ysgol, yr ALL a'r contractwr/wyr yn gyfrifol am ddiogelwch y disgyblion ac y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau diogelwch pob aelod o gymuned yr ysgol ac ymwelwyr yn ystod gwaith adeiladu'r feithrinfa.

ATODIAD G

Nodyn o Gyfarfod Ymgynghori – 15.30 ar 2 Tachwedd 2015 gyda Staff Cylch Chwarae Saint-y-brid.

Yn bresennol – D. Mottram (pennaeth), I. Spence (cadeirydd y llywodraethwyr) a 3 aelod o staff Cylch Chwarae Saint-y-brid.

Amlinellodd Mr Mottram ddiben yr ymgynghoriad a'r rhesymau drosto. Yn gyntaf, holwyd a oedd unrhyw ddiben i'r ymgynghoriad gan fod caniatâd cynllunio wedi'i gael i adeiladu'r feithrinfa. Eglurwyd bod ychydig o bethau o hyd a allai atal yr adeiladu. Cafwyd achosion lle bu cynifer o wrthwynebiadau yn ystod yr ymgynghoriad nes i'r corff llywodraethu benderfynu peidio â symud ymlaen i Hysbysiad Statudol. Hyd yn oed pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i fynd i Hysbysiad Statudol, nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r cyllid a ddyrannwyd yn ddigon i gyllido'r gwaith adeiladu ac ni fyddai'r sefyllfa'n glir nes cael tendrau gan y contractwyr adeiladu. Yna byddai'n rhaid i'r Hysbysiad Statudol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Codwyd pryderon am y cyhoedd cyffredinol yn cael gwybod am y cynnig. Cytunwyd i ystyried rhoi hysbyseb yn y Gem a chael sesiwn galw heibio bellach i aelodau o'r gymuned.

Roedd gweddill y drafodaeth, gan mwyaf, am y manylion ymarferol pe byddai'r feithrinfa'n cael ei chodi a phe byddai'r rhieni'n defnyddio'r cylch chwarae i ddarparu gofal cofleidiol. Cytunwyd y byddai angen cydreddeg amseroedd sesiwn ac y byddai'n ddoeth rhoi cinio yn y safle lle cynhaliwyd sesiwn y bore. Byddai staff yr ysgol yn cynnal asesiad risg o'r llwybr gorau rhwng y ddau adeilad ac yn goruchwyllo'r trosglwyddo rhyngddynt.

ATODIAD H

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ysgol a gynhaliwyd yn y Senedd ar 24 Tachwedd 2015

Yn bresennol - SH, SM, KMC, AS, RM, JC, MS, EG, LD, EA, RH, BT, CR

Sylwedyddion - DM, AJ, Mrs Humphries

Agenda	Nodiadau
Plant mewn Angen	Codwyd £250 gennym, mwynhaodd pob dosbarth ond dywedodd JC nad oedd pawb wedi gwisgo i fyny.
Ymgynghoriad am y Feithrinfa	Dywedodd Mr Mottram wrthym am gynlluniau'r feithrinfa a buom yn gofyn rhai cwestiynau holgar gan gynnwys 'Pa mor ddiogel fydd y lle i'r plant tra bydd yr adeiladwyr yn adeiladu yn ystod oriau ysgol?', 'Ar ba adegau y byddant yn adeiladu?', 'Pwy fydd yn addysgu yn y feithrinfa?' ac 'A fydd yr amseroedd adeiladu yn cyd-daro ag oriau ysgol?' Hefyd 'a fydd y feithrinfa'n well na'r cylch chwarae?', 'A fydd y cylch chwarae'n cau?' 'Sut bydd y plant yn mynd o'r naill i'r llall?' Pleidleisiom o blaid - 10 o blaid, 2 yn erbyn, 1 ymwrthod.
Ffair Nadolig	Trafodom ba stondin yr hoffem ei chynnal yn y Ffair Nadolig a chynigiwyd rhai syniadau. Roedd Erin am gael gwybod beth.
Murlun yr Ysgol	Soniwyd y gallem gael murlun o bynciau a gweithgareddau y byddem yn ei roi yn yr ardal ganol ac yn y cyntedd gallem roi pethau sy'n cynrychioli Cymru i ddangos ein bod yn ymfalchïo yn ein Cymreictod.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Safleoedd

Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 29 Medi 2015 am 4.00pm yn yr Ysgol

Yn bresennol: Tony Davies (AED) - Cadeirydd; Ian Spence (IS), Duncan Mottram (DM), Claire Jones (CJ) a Ceri Squire (CS), y Tad Phillip Morris

Roedd cworwm yn y cyfarfod.

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gyda chaniatâd gan Sally Knight.

2. Y Cofnodion

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir.

3. Materion a gododd

Gwariant ar ddeunyddiau – Cadarnhawyd bod y bil mawr am ddeunyddiau glanhau ar gyfer archeb swmpus a fydd yn para nifer o fisoedd. Cadarnhawyd hefyd fod y cynnydd mewn deunyddiau addysgu'n adlewyrchu'r paratodau cyn yr arolygiad.

Cynaliadwyedd TGCh – Mae Mrs C. Jenkins yn gweithio ar adroddiad o hyd. DM i fynd ar drywydd hwn.

DM

Prynwyd cyfarpar TG newydd y gofynnwyd amdano'n flaenorol i'r dderbynfa.

Lle Chwarae – Mae'r gwaith adfer a wnaethpwyd gan Encon yn ystod gwyliau'r haf fel petai wedi llwyddo, am fod yr arwyneb yn draenio'n gyflym a hynny heb ddŵr yn cronni. Fodd bynnag, mae un ardal yn

ystafell ddsbarth awyr agored Blwyddyn 2 lle mae chwyn wedi tyfu ac mae rhai pyllau sylweddol yn cronni. Cytunwyd i drefnu bod yr ardal hon yn cael ei golchi â theclyn pŵer ar 17 Rhagfyr, pan fydd yr ysgol i gyd allan ar ymweliadau. Os na fydd hyn yn datrys y broblem yn effeithiol, efallai bydd gwaith pellach yn ofynnol.

DM

Mae "Llwybr Pren" ar gyfer lle chwarae'r plant iau wedi'i archebu ond nid oes dyddiad gosod eto.

Bu'r dderbynfa newydd yn llwyddiannus ac fe'i croesawyd gan ymwelwyr. Costiodd lai na £5,000, a'r llawr oedd yr un bil mwyaf sef tua £3,000.

4. Adroddiad Ariannol ac Adolygiad o'r Gyllideb

Nid oes arian gwersi cerddoriaeth wedi'i dalu eto i'r gwasanaeth cerddoriaeth ac ni ddylai fod unrhyw danwariant.

Ni chafwyd unrhyw filiau ddŵr ers mis Mawrth. DM ac IS i fynd ar drywydd hyn.

DM/IS

Mae £10K o danwariant wedi'i nodi. Cafwyd £5K gan gyllid CRAMP tuag at gost y gatiâu diogelwch newydd. Mae £50K yn y gronfa wrth gefn. Rhaid caniatáu rhywfaint am gynnydd yng nghyflogau'r athrawon cyn y flwyddyn ariannol newydd.

5. Materion safleoedd

Adran 106: Rydym bellach wedi cyflwyno cais cynllunio llawn am floc meithrin/derbyn newydd. Ar hyn o bryd, dim ond adran feithrin yr adeilad y gellir ei hariannu gan yr arian Adran 106. Mae'r ysgol wedi cael rhagor o gefnogaeth gadarnhaol gan Gyngor Bro Morgannwg. Bydd IS, AJ, AED, DM a'r pensaer yn cyfarfod â chynrychiolwyr Bro Morgannwg ar 30 Medi. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ei phedwerydd drafft ac yn barod bellach i'w chylchredeg fel y cytunwyd gan bawb a oedd yn bresennol. Fodd bynnag, mae ymgynghoriad â Bwrdd Addysg yr Eglwys yng Nghymru wedi dechrau erbyn hyn.

Mae angen trafod ymhellach gyda'r cylch chwarae am y gofal cofleidiol. DM i siarad ag Amanda Rogers a Yana.

DM

Mae llawer o lystyfiant yn tyfu yn y cafnau, ac mae angen ei glirio. Mae'n dasg i ddau am fod angen defnyddio ysgolion. DM i drefnu.

DM

6. Materion Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd Ymarfer Tân Ysgol yn yr wythnos yn dechrau 21 Medi 15. Llwyddwyd i gael pawb ar y safle allan yn ddiogel ymhen 2 funud 27 eiliad.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Ardal y llyfrgell Cytunwyd i ddiweddarau ardal y llyfrgell, gan ad-drefnu'r storffeydd a'u cysoni â'r pynciau y mae'r ysgol yn ymdrin â hwy. Bydd byrddau llai o faint yn cael eu gosod i gynnal ardaloedd grŵp a bydd llawr finyl gwrthslip newydd yn cael ei osod. Gall Rob Bailey wneud y gwaith addurno heblaw gosod y llawr. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod hanner tymor.

Cau'r ysgol y tu allan i oriau – Ar hyn o bryd, mae tri chlwb yn defnyddio neuadd yr ysgol gyda'r nos. Fodd bynnag, maent yn gorffen ar ôl oriau craidd R. Bailey ac mae allweddi ganddynt. I raddau, mae hyn yn cyfaddawdu diogelwch yr adeilad a chytunwyd i ofyn i R.B a hoffai awr a hanner yn ychwanegol i ddod yn ôl a chloi. Fel arall, gellid gofyn i aelod o staff sy'n byw'n lleol gau'r adeilad a'i dalu am wneud hynny. **DM** i drefnu.

Y Tad Philip Morris – Diolchodd AED i Philip am ei gyfraniad gwerthfawr at y pwyllgor Cyllid a Safleoedd dros y blynyddoedd ac am bopeth yr oedd wedi'i wneud i'r llywodraethwyr a'r ysgol. Dymunodd pawb ymddeoliad hapus iddo.

8. Dyddiad ac Amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 23 Tachwedd 2015 am 16.00 yn yr ysgol. **PAWB**

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid

Mae gofyn i'r Ysgol roi sylw priodol i'r ffaith bod angen:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt.

Eglura'r Ddeddf fod rhoi sylw priodol i ddatblygu cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau anfanteision a gaiff pobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'r ddyletswydd hefyd yn cynnwys priodas a phartneriaeth sifil ond dim ond o ran dileu gwahaniaethu. Ac yng Nghymru rhaid hefyd inni drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae cyngor pellach ar gwblhau asesiadau effaith ar gael ar StaffNet
http://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/corp_cust_services/equalities/equalities_policies_guidance/equality_impact_assessments.aspx

Teitl a disgrifiad o'r polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad (cyfeirir ato fel "polisi" drwy'r holl ffurflen).	CYNNIG I YMESTYN YSTOD OEDRAN YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMURU SAINT-Y-BRID I 3-11 OED A CHREU DOSBARTH MEITHRIN AR GYFER 48 O DDISGYBLION
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi?

Enw	Duncan Mottram
Teitl Swydd	Pennaeth – Saint-y-brid

1. Ar bwy fydd y polisi hwn yn effeithio?

Nodwch:

Preswylwyr Bro Morgannwg yn nalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid - yn benodol plant Cyn-ysgol a'u teuluoedd, Mamau beichiog, Defnyddwyr cyfredol Cylch Chwarae Saint-y-brid.

Staff yr ysgol a staff y Cylch Chwarae.

2. A yw'r polisi'n berthnasol i faes lle mae anghydraddoldeb hysbys?

Nac ydy.

3. Rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Disgrifiwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i lywio'ch asesiad. Pa dystiolaeth sydd gennych am y ffordd y caiff eich gwasanaeth ei ddefnyddio? Beth oedd cryfder y dystiolaeth ac a nodoch unrhyw fylchau? A nododd y dystiolaeth unrhyw rwystrau rhag gwasanaethau, neu wahanol anghenion a blaenoriaethau i grwpiau nodwedd warchoddedig? Os oedd y dystiolaeth yn wan neu os nodwyd bylchau, pa gamau ydych wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hyn?

Nid oes gwasanaeth o gwbl ar hyn o bryd. Byddai hwn yn wasanaeth newydd a ddarperir i gymuned Saint-y-brid. Ar hyn o bryd, caiff plant rhwng 3 a 4 oed eu haddysg feithrin blynyddoedd cynnar yn y cylch chwarae yn Saint-y-brid.

4. Ceir dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â phobl a sefydliadau sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchoddedig, a'u cynnwys, lle nodir bod posibilrwydd y bydd y polisi'n effeithio arnynt (er enghraifft dynion; menywod;

rhieni; gofawyr; y gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid, mudwyr economaidd); pobl anabl; y gymuned Gymraeg ei hiaith; y gymuned lesbiaidd, hoyw a deurywiol; pobl trawsrywiol; gwahanol grwpiau ffydd; etc).

Soniwch am unrhyw weithgareddau ymgysylltu sydd wedi digwydd – yn fewnol ac yn allanol:

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o ddydd Llun 2 Tachwedd 2015 i ddydd Gwener 8 Ionawr 2016 ac fe'i cynhaliwyd gyda'r ymgynghoreion a ragnodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Holwyd barn amrywiaeth o unigolion a grwpiau am y cynnig.

Ymgynghorwyd hefyd â disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yn ystod sesiwn a gynhaliwyd ddydd Mawrth 24 Tachwedd 2015 yn y Senedd. Cynhaliwyd y sesiwn ymgynghori â chyngor yr ysgol ac fe'i hwyluswyd gan y pennaeth, Mr Duncan Mottram, a chadeirydd y llywodraethwyr, Mrs Ann Jenkins, i gynnwys y plant yn y broses ymgynghori.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol drwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb gysylltiedig a ddsbarthwyd i'r ymgynghoreion a ragnodwyd. Cynigiwyd y ddogfen ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Cynhaliwyd cyfarfod â Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yn yr ysgol ar 16 Tachwedd 2015. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio gyda'r rhieni ar 4 Tachwedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid er mwyn i'r rhieni fynychu, cyfarfod â chynrychiolwyr yn unigol a rhannu eu barn. Cynhaliwyd cyfarfodydd staff yng nghylch chwarae Saint-y-brid ar 2 Tachwedd 2015 ac yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid ar 3 Tachwedd 2015. Roedd y pennaeth Mr Duncan Mottram yn bresennol ym mhob cyfarfod yn ogystal â chynrychiolwyr o gorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

5. A fydd y polisi hwn yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu?

Bydd

Rhowch fanylion:

Bydd yn cryfhau addysg y blynyddoedd cynnar yn amgylchedd yr ysgol. Bydd plant rhwng 2 a 3 oed yn gallu parhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yng ngrŵp chwarae Saint-y-brid. Bydd gofal cofleidiol yn cael ei ddarparu yng nghylch chwarae Saint-y-brid i'r plant hynny sy'n 3 neu 4 oed y cynigir sesiynau iddynt yn y dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.

6. A fydd y polisi hwn yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae sefydliadau eraill yn gweithredu?

Bydd

Rhowch fanylion:

Bydd Cylch Chwarae Saint-y-brid yn gostwng ei oedran derbyn ac yn cynnig yr elfen gofal cofleidiol o'r cynnig.

Bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yn estyn y ddarpariaeth i blant oedran meithrin a bydd angen i bolisiâu a gweithdrefnau'r ysgol adlewyrchu hyn.

7. A fydd y polisi'n effeithio ar bolisiâu neu arferion eraill?

Bydd

Disgrifiwch:

Bydd rhaid i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid estyn ei pholisiâu i sicrhau bod plant o oedran meithrin yn cael eu cynnwys yn y rhain a'u diogelu ganddynt.

8. A ydych wedi nodi unrhyw dystiolaeth y gallai'r polisi wahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl yn unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu gael effaith andwyol arnynt? Os 'Do', beth ydych chi'n bwriadu ei wneud i liniaru rhag hyn?

Naddo

9. Beth ellir ei wneud ymhellach i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy newid y polisi? Rhowch fanylion, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol:

Profiad addysgol drwyddi draw i bawb ar un safle gyda mynediad da i'r anabl ar draws yr ysgol.

10. A ydy'r asesiad wedi nodi bod angen monitro yn y dyfodol? Os felly, pa waith monitro ydych chi'n bwriadu ei wneud? (er enghraifft, nifer y bobl anabl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth yn gyfran o'r boblogaeth gyffredinol)

Rhowch fanylion:

Bydd asesu'n cael ei fonitro drwy'r prosesau arolygu arferol a fydd bellach yn cynnwys y safle blynyddoedd cynnar er enghraifft Estyn ac Adran 50. Bydd monitro'n parhau drwy'r 'Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion'.

11. Pa mor aml y byddwch chi'n dadansoddi'r data hwn ac yn adrodd

amdano, ac ymhle yr adroddir amdano?
Rhowch fanylion:

Bydd y gwaith dadansoddi ac adrodd yn cael ei wneud
drwy fecanweithiau adrodd blynyddol y Corff
Llywodraethu ac yn cael ei rannu ar wefan yr ysgol.

12. Sut fyddwch chi'n cyhoeddi ac yn amlygu'r polisi i sicrhau mynediad
cyfartal at yr wybodaeth hon (gan gynnwys hybu ymwybyddiaeth ymhlith
grwpiau lleiafrif, cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, etc)?
Rhowch fanylion:

Bydd yr ysgol yn cyhoeddi'r polisi hwn ar wefan yr
ysgol, a bydd copïau papur ar gael ar gais o swyddfa'r
ysgol.

13. Dylai unrhyw argymhellion i weithredu y bwriadwch eu cymryd o ganlyniad
i'r asesiad hwn o effaith (a restrwyd yn yr adrannau uchod) gael eu cynnwys
yn eich Cynllun Tîm neu Gynllun Gwasanaeth Adrannol.
Disgrifiwch y camau gweithredu hynny ac ymhle y
byddant yn cael eu rhoi:

Dim

14. Gall asesiad o effaith ar gydraddoldeb gael pedwar canlyniad posibl, ond
gall mwy nag un ohonynt fod yn berthnasol i un polisi. Nodwch ganlyniad(au)
perthnasol yr asesiad o effaith isod.
Ticiwch fel sy'n briodol:
Addaswyd y polisi i chwalu rhwystrau neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
Parhau'r polisi – nododd yr asesiad o effaith y potensial am effaith andwyol
neu golli cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r cyfiawnhad dros barhau
ag ef wedi'u nodi'n glir.